Adroddiad Blynyddol Craffu

2016-17

CRAFFU YNG NGWYNEDD

Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

Pwrpas y rol craffu yng Ngwynedd yw gwella gwasanaethau i drigolion Gwynedd. Mae'r Aelodau craffu yn cydweithio gyda thrigolion Gwynedd, Aelodau'r Cabinet, Swyddogion perthnasol ac asiantaethau eraill er mwyn cyflawni'r rol honno.

Mae craffu yn gwneud gwahaniaeth drwy gadw hyd braich oddi wrth y gwasanaethau, eu canmol am y gwaith a gyflawnir yn ogystal a'u dal i gyfrif a'u herio am eu perfformiad pan fo angen.

Gwneir hyn trwy herio yn gyhoeddus mewn pwyllgorau ffurfiol neu gynnal ymchwiliadau mwy manwl i faterion penodol, sydd wedyn yn arwain at gyflwyno argymhellion i'r pwyllgorau craffu a'r Aelod Cabinet perthnasol.

Yn ystod 2016/17 cynhaliwyd adolygiad i'r trefniadau craffu er mwyn ceisio gwella yr hyn yr ydym yn ei wneud. O ganlyniad i'r adolygiad, bydd meysydd gwaith y pwyllgorau craffu yn newid yn 2017/18 er mwyn gwella ar y cydbwysedd gwaith rhwng y pwyllgorau a thrwy hynny sicrhau sylw priodol i'r gwahanol feysydd.

Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Pwyllgorau craffu am eu gwaith caled dros y flwyddyn diwethaf, ac yn arbennig i'r Cadeiryddion am yrru'r gwaith yn ei flaen. Yn ogystal, dymunaf gyfleu fy ngwerthfawrogiad o'r cydweithrediad gan nifer fawr o unigolion eraill a gyfrannodd i'r gwaith holl bwysig hwn yn ystod y flwyddyn a fu.

Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu 2016-17

Pwyllgor Craffu Gwasanaethau

Cadeirydd - Cynghorydd Beth Lawton
Is-gadeirydd - Cynghorydd Eirwyn Williams

Pwyllgor Craffu Corfforaethol

Cadeirydd - Cynghorydd Jason Humphreys
Is-gadeirydd - Cynghorydd Roy Owen

Pwyllgor Craffu Cymunedau

Cadeirydd - Cynghorydd Caerwyn Roberts
Is-gadeirydd - Cynghorydd Dilwyn Morgan

Cynnwys

Gwella gwasanaethau Cefnogol i Ofalwyr di-dâl
Teithio’n fwy annibynnol
Gweithio gyda Iechyd yn Ysbyty Alltwen
Anableddau Dysgu yng Ngwynedd
Mynd adre o’r ysbyty
Perfformiad y System Addysg yng Ngwynedd
Addysg Gymraeg
Cefnogaeth GwE
Trefniadau Cefnogi Ysgolion
Cysylltu gyda’r Cyngor
Treth Cyngor ar gartefi gwag hir dymor ac ail gartrefi
Cadw’r Budd yn Lleol
Datblygu Gwasanaethau Cynaliadwy
Ymateb i Arbedion
Ymchwiliadau’r Flwyddyn
Argymhellion Ymchwiliadau i Wella
Hawliau Tramwy

Gwella Gwasanaethau Cefnogol i Ofalwyr Di-dâl

Er bod y Cyngor yn darparu cefnogaeth dda i nifer o ofalwyr yng Ngwynedd, mae'r darlun yn aneglur.

Pwy a Beth yw Gofalwr Di-Dâl?
Yn dilyn cynnal Ymchwiliad Craffu, mae'r Aelodau Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros gefnogi gofalwyr sy'n blant ac yn oedolion yn bwriadu cynnal gwaith i weld a ellir dod i adnabod gofalwyr di-dâl Gwynedd yn well.
Pobl gyffredin fel chi a fi, ond pobl arbennig sy'n sicrhau bod eu hanwyliaid, ffrindiau a chydnabod yn cael gofal ac anogaeth. Weithiau bydd hyn yn gymorth gymharol hawdd ond pwysig fel mynd â rhywun am dro neu i siopa. Tro arall gall fod yn llawer mwy dwys fel helpu cymar sâl drwy'r dydd a'r nos.

Faint o ofalwyr sydd yng Ngwynedd heddiw?

12,433?

1,033?

165?

Does dim ateb syml i'r cwestiwn yma! Mae Cyfrifiad 2011 yn nodi 12,433; mae rhestr Cyngor Gofalwyr yn nodi 1,033 ac mae system RAISE y Cyngor yn dangos 165 o ofalwyr.
Mae hyn yn dasg anodd iawn, ond mae Deddf newydd gan Lywodraeth Cymru yn gorfodi'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor i gynnig asesiad i bob gofalwr yng Ngwynedd.
Mae hyn yn job anferth gan fod gymaint o bobl yn gofalu am eu hanwyliaid a'u ffrindiau ond ddim yn ystyried eu hunain fel gofalwyr.
Yr her gyntaf a osodwyd i'r Aelodau Cabinet sy'n gyfrifol am gefnogi gofalwyr sy'n Blant ac yn Oedolion oedd dod i wybod pwy yw'r bobl arbennig yma sy'n gofalu am bobl yn ddi-dâl

£5,820,000
Gwerth Gofalwyr Di-dâl

Yn ogystal â chynnal gwasanaeth hanfodol, mae'r gofalwyr di-dâl yn arbed arian sylweddol i Gyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr bob blwyddyn.
Mae un arolwg a gynhaliwyd gan y Cyngor Gofalwyr yn nodi pe byddai'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn cynnal y gwasanaethau a ddarperir yn ddi-dâl gan ofalwyr byddai'n costio £5,820,000 ychwanegol bob blwyddyn.
Y broblem arall ydi ei bod yn ymddangos bod y toriadau mewn cyllid sydd wedi'u gorfodi ar y Cyngor ers 2007, wedi cael effaith ar y gwasanaethau cefnogol i ofalwyr, ac er bod y Cyngor yn arbed arian yn y tymor byr, mae'n debygol y bydd hyn yn arwain at gostau uwch i'r Cyngor nes ymlaen.
Y drydedd her a osodwyd i'r Aelodau Cabinet oedd gweld faint o gostau ychwanegol sydd yn rhaid i'r Cyngor dalu amdanynt nawr ac yn y blynyddoedd nesaf drwy wneud y toriadau.

£££££££££

<u>Sut allwn ni gefnogi'r Gofalwyr</u>?
Wedi dod i adnabod y gofalwyr yn well, mae angen cynnig y gwasanaethau sydd fwyaf addas i ofalwyr a'r cymorth maen nhw ei angen.
Mae diffyg cefnogaeth yn gallu cael effaith ddrwg iawn ar iechyd gofalwyr a'u gallu i ofalu.
Mae tua 100 o grwpiau gwirfoddol a grwpiau o weithwyr sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn cynnig gwasanaethau amrywiol i ofalwyr
Yr ail her a osodwyd i'r Aelodau Cabinet oedd dysgu mwy am yr holl wasanaethau yma i weld pa rai sy'n gweithio orau, a sut all y Cyngor gefnogi'r gwasanaethau yma.

Teithio'n fwy annibynnol

Gall rhai pobl sydd angen cludiant i ddefnyddio gwasanaethau gofal a chefnogol gael cefnogaeth gan y Cyngor i dalu am y cludiant.

Er mwyn ceisio bod yn deg â phawb (a chyfarch gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014) mae'r Cabinet yn bwriadu addasu Polisi Cludiant yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant trwy:

- Cynnal asesiad o anghenion cludiant fel rhan o'r asesiad cyffredinol o anghenion yr unigolyn;
- Rhoi ystyriaeth i 4 elfen:
  - Lwfans/Cefnogaeth Symudedd (Motobility)
  - Peidio ystyried pellter fel ffactor
  - Peidio trefnu ar ran preswylwyr cartrefi preswyl, cartrefi gofal,tai gofal ychwanegol neu rai sy'n byw â chefnogaeth
  - Yr Aseswr i gynnal asesiad risg a gosod mesurau lliniaru

Roedd Aelodau'r Pwyllgor Craffu'n cytuno gyda'r bwriadau uchod; ond yn gofyn i'r Cabinet ymgynghori'n eang ar y cynigion ac i roi sylw i'r materion canlynol cyn mabwysiadu'r polisi newydd:

1. Sicrhau bod tacsis a bysiau'r Cyngor yn cael eu defnyddio'n effeithiol
2. Rhoi mwy o fanylion yn y polisi am y Broses Apêl
3. Ystyried yn ofalus effaith costau ychwanegol ar unigolyn
4. Hwyluso a chydlynu trefniadau cludiant ym mhob ran o Wynedd
5. Ystyried gwersi i'w dysgu o drefniadau mewn siroedd eraill

Gweithio gyda iechyd yn Ysbyty Alltwen

Yn Ysbyty Alltwen ger Porthmadog mae swyddogion gwasanaethau gofal Cyngor Gwynedd yn ardal Eifionydd a swyddogion iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaldr yn gweithio'n agos gyda'i gilydd.

Maen nhw'n gwneud hyn er mwyn cynnig y gwasanaeth gorau i'r person sy'n cael triniaeth neu gefnogaeth boed hynny yn yr ysbyty neu yn y gymuned.

Mae saith o gynghorwyr a oedd yn aelodau o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau wedi bod yn edrych ar sut mae pethau'n mynd, dyma'r prif bwyntiau…

Prif Ganfyddiadau

- Mae'r cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor yn dda iawn ar y cyfan yn lleol ac i raddau rhwng uwch-swyddogion, ond bod angen mwy o ymrwymiad ar y lefelau uchaf.
- Mae lle i wella hefyd o ran cydweithio gyda meddygfeydd a grwpiau trydydd sector.
- Diffyg arall yw nad oes ffordd glir o fesur yn llawn pa mor llwyddiannus yw'r gwaith, ond mae hyn yn cael sylw ar hyn o bryd.

Prif Argymhellion

- Gwella dealltwriaeth ac ymrwymiad uwch reolwyr ar y lefelau uchaf
- Cynnal Arolwg a Holiadur Boddhad Cwsmer gyda'r Defnyddwyr
- Asesu'r mesuryddion presennol a gosod gwaelodlin a tharged ar gyfer pob un
- Cynnal system well i dderbyn a phrosesu galwadau ffôn
- Darparu gwasanaeth integredig llawn rhwng 8.00 y bore ac 8.00 yr hwyr bob dydd yn cynnwys penwythnosau.
- Sefydlu un system electronig integredig ar gyfer y gwaith
- Sefydlu trefn o adrodd yn wythnosol ar wlâu preswyl, nyrsio ac EMI sydd ar gael ym mhob ardal o Wynedd.
- Ymestyn model gweithio integredig Cynllun Alltwen ar draws y Sir ar fyrder.

Anableddau Dysgu yng Ngwynedd

Cynhaliwyd Arolwg o wasanaethau anableddau dysgu Gwynedd gan Arolygwyr allanol ym misoedd Chwefror a Mawrth 2016. Prif ffocws y gwaith oedd i weld pa mor dda oedd trefniadau a pherfformiad y Cyngor ac i wneud argymhellion i wella.

Roedd asesiad yr Arolygwyr yn nodi bod nifer o nodweddion da am y gwasanaeth fel cydweithio da gyda'r Bwrdd Iechyd ar lefel gweithredol a bod gwasanaethau I'r Defnyddiwr wedi'u cydgysylltu'n dda ar y cyfan.

Y prif bethau oedd angen sylw oedd: moderneiddio a llunio cynllun comisiynu, gwella cydweithio ar lefel strategol uwch a'r angen i'r Cy-farwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i roi sylw brys i rolau a chyfrifoldeb-au swyddogion o safbwynt trefniadau ansawdd arferion o ran amddiffyn oe-dolion agored i niwed.

Lluniwyd saith argymhelliad gan yr Arolygwyr i'r Cyngor weithredu arnynt.

Ym mis Medi 2016, gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor Craffu am ddiweddariad gan yr Aelod Cabinet ar gyflawni'r argymhellion. Dyma grynodeb o'r prif elfennau:

- Lluniwyd Strwythur Gwasanaeth newydd a ddaeth i rym ym mis Mai 2016 ac fe benodwyd Uwch Reolwr i arwain y Gwasanaeth ynghyd â 4 uwch re-olwr/ymarferwr newydd ychwanegol.
- Sefydlwyd newyddlen ym mis Awst 2016 i wella cyfathrebu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth
- Roedd Fforwm Moderneiddio'n cael ei drefnu ar gyfer mis Hydref 2016 i wella cyd-gynllunio gyda phartneriaid a darparwyr
- Roedd bwriad i sefydlu Uned Diogelu a sicrwydd ansawdd yn fuan yn cynnwys rhoi sylw i ddiogelu hawliau pobl lle mae perygl iddynt gael eu hamddifadu o'u rhyddid.
- Sefydlwyd trefn i sicrhau bod staff anableddau dysgu'n derbyn goruchwyliaeth broffesiynol gan Uwch Reolwr.

Roedd yr Aelodau'n hapus gyda'r cynnydd ar y cyfan, a gofynnwyd i'r Gwasanaeth brysuro gyda'r gwaith o ddelio gyda'r rhestr aros am asesiadau.

Mynd adre o’r Ysbyty

Pa mor addas ac effeithiol yw trefniadau rhyddhau cleifion o’r Ysbyty i’r Cartref yng Ngwynedd?

Roedd pryderon gan Aelodau’r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau nad oedd y cydweithio rhwng gwasanaethau gofal y Cyngor, iechyd a’r trydydd sector yn gweithio’n effeithiol o ran rhoi anghenion y claf yn y canol wrth iddo/iddi adael yr ysbyty a dychwelyd adref neu i’r gymuned.

Cynhaliwyd dau ymchwiliad gan grŵp brwdfrydig o Aelodau’r Pwyllgor gan gyflwyno pymtheg o argymhellion manwl ar sut i wella.

Derbyniwyd yr Argymhellion gan yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a Chadeirydd y Bwrdd Iechyd ym mis Mehefin 2014 a Mehefin 2015. Cafwyd diweddariad gan yr Aelod Cabinet a Chyfarwyddwr Rhanbarth y Gorllewin o’r Bwrdd Iechyd ym mis Ionawr 2017.

Llongyfarchwyd yr Aelod Cabinet a’r Cyfarwyddwr ar lwyddo I gyflawni ‘r rhan fwyaf o’r argymhellion gan gynnwys:

- Adolygu ‘r Protocol Rhyddhau gyda’n partneriaid allweddol a chydweithio’n drawsffiniol gyda rhyddhau cleifion o Ysbyty Bronglais i dde Meirionnydd.
- Gwella’r cyfathrebu a’r gwasanaethau gan gynnwys gwlâu tymor byr, prosiect EMI Llys Cadfan, Ffordd Gwynedd Eifionydd, gweithio 7 diwrnod a nyrsio ardal 24/7.
- Rhoi’r defnyddiwr yn y canol drwy gynnal asesiadau ar y cyd ar ffurf sgwrs ‘*Beth sy’n Bwysig’* gyda iechyd a’r trydydd sector yn rhannol.
- Cynlluniau i gyfarch prinder meddygon a nyrsys.

Anogwyd yr Aelod Cabinet a’r Cyfarwyddwr i barhau gyda’r gwaith da ac i roi sylw pellach i gyflwyno cartrefi gofal/nrysio (cofrestriad deuol) cyn gynted â phosibl ac i sicrhau buddiannau siaradwyr Cymraeg wrth gael eu hasesu ac wrth dderbyn trin-iaeth a gofal.

Perfformiad y system addysg yng Ngwynedd

Mae llwyddiant a chyflawni potensial ein plant yn un o'r materion pwysicaf i'r sir ac, yn y flwyddyn diwethaf, bu'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau yn edrych ar hynny fwy nag unwaith gan edrych ar berfformiad blynyddol y Gwasanaeth Addysg a chanlyniadau Arholiadau'r Haf.

Fe welodd y Pwyllgor rai pethau I'w croesawu a rhai pethau i'w gwella

PETHAU I'W CROESAWU

☺ Cynnydd sylweddol yn y prif ddangosydd TL2+ (65.9% yn Haf 2016 o gymharu â 61.1% yn Haf 2014)

☺ Gwelliant sylweddol yng Nghyfnod Allweddol 4 ar draws ystod y dangosyddion

☺ Canlyniadau CA3 yn parhau yn gadarn (yn yr ail safle) yn enwedig yn y dangosydd pwnc craidd

☺ Canlyniadau Cyfnod Sylfaen / Cyfnod Allweddol 2 yn weddol sefyd-log ac angen ymgymryd â darn o waith o ran y trothwyon yn yr oedrannau yma i ganfod arferion da

☺ Cynnydd mewn presenoldeb dysgwyr yn yr uwchradd a'r cynradd yn cynnwys Cyfnod Allweddol 4

☺ Gwelliant ym mherfformiad disgyblion Prydau Ysgol am Ddim a'r bwlch rhyngddynt â disgyblion eraill wedi lleihau

MEYSYDD SYDD ANGEN SYLW

😐 Cyfnod Allweddol CA3 / CA4 ym meysydd Cymraeg, Saesneg a Mathemateg

😐 Gwella ansawdd y ddarpariaeth a safonau cyflawniad yn CA5

😐 Sylw buan i'r Cyfnod Sylfaen

😐 Gwella perfformiad yn y Gymraeg ymhob cyfnod allweddol

Addysg Gymraeg

Mae ymrwymiad Cyngor Gwynedd i'r Iaith Gymraeg yn un o gonglfeini'r Cyngor ac mae llwyddiant y Polisi Addysg Gymraeg yn allweddol ar gyfer hynny, yn arbennig mewn byd lle mae cymaint o ddylanwadau yn milwrio yn erbyn ieithoedd brodorol

Yn ystod 2015/16, cynhaliodd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ymchwiliad i Addysg Gymraeg o fewn y sir er mwyn edrych ar weithrediad ar lawr gwlad mewn ysgolion unigol a'r graddau yr oedd y ddarpariaeth yn gymorth i hybu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc.

Lluniwyd adroddiad cynhwysfawr â 24 o argymhellion manwl a dderbyniwyd gan yr Aelod Cabinet ac, yn 2016/17, bu'r Pwyllgor yn holi pa gynnydd sydd wedi bod gyda gweithredu ar yr argymhellion hynny.

Adroddiad y Cynghorydd Gareth Thomas, yr Aelod Cabinet bod 14 argymhelliad wedi eu gweithredu'n llawn a 9 yn rhannol gydag un yn fater i'r Pwyllgor ei hun.

Derbyniodd y pwyllgor adroddiad manwl iawn gan arbenigwr yn y maes yn asesu'r sefyllfa ar draws y sir ac yn cynnig argymhellion.

Roedd y pwyllgor yn ddiolchgar am yr adroddiad ac yn cymeradwyo'r argymhellion i gyd ond mynegodd bryder am oblygiadau gweithredu un argymhelliad ar gategoreiddio ysgolion yn ôl iaith y cyfrwng addysgu a dysgu dan un categori, sef ysgolion dwyieithog.

Bydd angen sylw i hyn felly yn ystod 2017/18 a hefyd adrodd yn ôl yn fuan ar weithredu holl argymhellion yr Ymchwiliad Craffu.

Cefnogaeth GwE

Mae gan GwE (Y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru) rôl bwysig i helpu ysgolion y sir i wella deilliannau disgyblion.

Cafodd hwn yn ei adnabod mewn ymchwiliad craffu i ansawdd addysg yn 2013/14 ond, yn diiweddar, mynegwyd pryder am waith GwE.

GwE
Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

CWESTIYNAU A PHRYDERON Y PWYLLGOR

Cododd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau nifer o bwyntiau:-

- Natur a chost y cytundeb rhwng y Cyngor â GwE
- Dadansoddiad o'r model ysgol i ysgol gan fod amheuon am ei effeithlonrwydd
- Pryder bod gormod o ffocws ar yr ysgolion yng nghategori coch / melyngoch a'r angen i gadw golwg ar yr ysgolion gwyrdd rhag iddynt lithro
- Pryder bod penaethiaid ac athrawon yn symud i GwE gan amddifadu ysgolion lleol o staff ac o ganlyniad yn effeithio ar safonau addysg yr awdurdod

Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod adolygiad wedi ei gynnal o effiethlonrwydd GwE a bod argymhellion pendant ar gyfer ei wella o dan arweiniad ein cyn-Bennaeth Addysg, Arwyn Thomas.

Roedd yr Aelodau hefyd yn falch o gyfle a roddwyd iddynt gysgodi gwaith swyddogion GwE yn rhai o ysgolion y sir i ddysgu mwy am eu gwaith

Trefniadau cefnogi ysgolion

Yn yr ysgolion mae rheng flaen y Gwasanaeth Addysg ac yno y mae'r flaenoriaeth. Fodd bynnag, mae'n rhaid sicrhau bod trefniadau cadarn yn eu lle i gefnogi'r gwaith hynny.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau wedi edrych ar dri pheth gwahanol:-

- Yr angen i sefydlu strwythur swyddfa ardal i gefnogi Ysgolion
- Modelau Amgen ar gyfer Arwain Ysgolion
- Digonolrwydd y Gwasanaeth Cefnogol a gynigir gan GwE, Cynnal a'r Awdurdod Addysg ei hun

SWYDDFA ARDAL

Mae'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau wedi edrych ar sut y gall sefydlu swyddfeydd ardal rhyddhau penaethiaid a staff rheng flaen arall i ganolbwyntio fwy ar ansawdd addysg yn y dosbarth.

Tra'n croesawu'r model, roedd gan y pwyllgor sylwadau ar fanylion y model a phryder am ei hariannu a'r peryg o greu mwy o fiwrocratiaeth

MODELAU ARWAIN YSGOLION

Mae'r Pwyllgor Craffu wedi bod yn edrych ar yr her o ddatblygu modelau newydd ar gyfer arwain ysgolion yn y dyfodol ac wedi derbyn asesiad o hyd at 6 model gwahanol.

Cytunwyd bod rhaid ystyried beth sy'n gweithio orau ym mhob sefyllfa leol a bod rhai cael trafodaethau lleol i ddeall beth yw'r ateb gorau yn y sefyllfaoedd hynny.

GWASANAETHAU CEFNOGOL

Mae Ymchwiliad Craffu wedi bod ar waith yn edrych:-

- Os oes angen newid yn y gwasanaethau cefnogol, er mwyn iddynt gyflawni eu pwrpas a bod yn gynaliadwy i'r dyfodol
- Pa fodelau eraill sydd ar gael ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn?

Bydd y gwaith hyn yn cwblhau yn 2017/18.

Cysylltu gyda’r Cyngor

Mae nifer o bobl angen cysylltu gyda’r Cyngor ar wahanol adegau, ac mae’r Cyngor hefyd angen casglu barn pobl Gwynedd yn aml.

Bu i’r Pwyllgor edrych ar dair elfen penodol o ‘gysylltu gyda’r Cyngor’. Mae nifer yn cysylltu gyda’r Cyngor wrth ffonio Galw Gwynedd ar 01766 xxx000. Yn ystod y flwyddyn gwelwyd fod perfformiad ateb galwadau ffon wedi llithro.

Cafwyd cyfle i drafod gyda’r gwasanaeth, a gwelwyd eu bod eisoes wedi ymateb i’r llithriad perfformiad. Roedd Aelodau’r Pwyllgor Craffu yn cytuno fod camau penodol yn digwydd i godi’r perfformiad, gan gynnwys datblygu’r system hunan-wasanaeth (gweler isod) a threfniadau i godi ymwybyddiaeth staff o drefniadau ateb ffonau yng ngwasanaethau’r Cyngor.

Rhan o’r ateb i wella perfformiad ateb galwadau ffon oedd y datblygiad cyffrous ar gyfer hunan wasanaeth.

BETH MAE HYN YN OLYGU?

Bydd pobl Gwynedd yn gallu archebu a thalu am wasanaethau ar lein yn y dyfodol agos.

Bu i aelodau’r pwyllgor craffu gynnig syniadau ar gyfer y gwasanaeth a chynghori y dylid codi sylw i’r gwasanaeth pan mae’n barod.

Gwnaeth yr aelodau edrych ar sut y mae’r Cyngor yn holi pobl Gwynedd hefyd.

Yn gyffredinol, mae’r holiaduron sy’n cael eu creu gan y Cyngor yn dda. Ond, fe wnaeth yr aelodau sylwi fod gormod o “iaith Cyngor” yn cael ei ddefnyddio, ac awgrymu y dylai’r Cyngor ddefnyddio iaith syml, dealladwy.

“edrych ar ol” - √, “cynnal” - x. “cynlluiau eraill” - √, “ cynlluniau amgen” - x

Treth Cyngor ar gartefi gwag hir dymor ac ail gartrefi

Gwnaeth y Pwyllgor Craffu edrych ar y buddion a'r risgiau o godi premiwm treth cyngor ar gartrefi gwag hir dymor ac ail gartrefi cyn i'r Cabinet a'r Cyngor ystyried y mater.

Gwaith pwyso a mesur gan edrych ar ddwy ochor y geiniog oedd hwn cyn cyflwyno ar-gymhellion y pwyllgor i'r Aelod Cabinet.

Ystyriwyd y ffeithiau:

- 4841* o ail gartrefi yng Ngwynedd
- 1411* o dai gwag hir dymor

* ffigurau ar adeg cynnal y gwaith

Rhan o'r ddadl ar gyfer codi prem-iwm ar dai gwag hir dymor ac ar ail gartrefi oedd i sicrhau fod tai gwag yn dychwelyd i ddefnydd gan fod prinder o dai fforddiadwy i bobl ifanc Gwynedd eu prynu.

Trafodwyd y posibilrwydd y byddai codi premiwm ar ail gartrefi yn golygu y byddai rhai yn ceisio symud eu eiddo i fod yn eiddo 'hunan ddarpariaeth' gan osgoi talu'r dreth, er bod rheolau penodol i geisio sicrahu nad yw hynny yn dig-wydd.

Ysyriwyd hefyd gwahanol opsiynau am godi premiwm, gan ystyried opsiynau megis codi 100%, neu godi'r premiwm yn raddol bob blwyddyn, ee cynyddu 25% bob blwyddyn.

Gwnaeth yr aelodau argymell y dylid codi premiwm treth cyngor o 50% ar dai gwag hir dymor ac ar ail gartrefi.

Hefyd, gofynodd yr aelodau am ystyriaeth benodol i sut y byddai'r arian ychwanegol yn cael ei ddefnyddio (er nad oeddent am glymu dwylo y Cyngor newydd). Dylid ystyried:
Cynorthwyo perchnogion tai gwag i atgyweirio er mwyn defnyddio fel preswylfa
Ystyried gwneud mwy o waith i ddeall y sefyllfa ynghylch tai gweigion

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r argymhelliad i godi'r premiwm 50%

Cadw’r Budd yn LLeol

Mae’r Cyngor yn fusnes sydd â chyllideb o dros £386miliwn, gan brynu gwasanaethau ac adnoddau.

Mae’r bwysig iawn gan y Cyngor ein bod yn trio cadw’r gwariant o fewn Gwynedd a Gogledd Cymru lle bo hynny’n bosib.

38% o wariant y Cyngor yn mynd i gwmniau o fewn y sir *

56% o wariant y Cyngor yn mynd i gwmniau o Ogledd Cymru a 63% o fewn Cymru

55% o wariant y Cyngor yn mynd i gwmniau sydd a’i bencadlys neu gangen o fewn y sir

Gyda maes mor bwysig, roedd y pwyllgor yn credu y dylid:

Codi ymwybyddiaeth gydag asiantaethau o’r gwaith sy’n mynd ymlaen gyda taliadau uniongyrchol fel y gallant gynorthwyo.

Cydweld y dylid gweithio gyda chwmniau sydd heb ennill tendrau er mwyn eu cynorthwyo i baratoi yn well i’r dyfodol

Parhau gyda’r gwaith sy’n cael ei wneud gyda’r prif gwmniau sy’n ennill tendrau i geisio gweld beth yw’r posibiliadau i is-gontractio gyda chwmniau llai, lleol.

Gwelwyd fod trefniadau mewnol gan y Cyngor wedi newid. Er fod yr aelodau yn credu fod pawb wedi ‘prynu mewn’ i’r trefniadau, dylid ail edrych yn 17-18 i weld os yw’r adrannau yn cymryd eu cyfrifoldeb o ddifrif.

Fod angen datblygu rhaglen gontractau sy’n cael ei diweddaru yn aml fel bo cwmniau lleol yn cael digon o amser i baratoi. Mae angen cadw llygad ar hyn.

Mae’n rhaid gwneud yn siwr fod ansawdd y gwaith gan y cwmniau sy’n ennill y contractau yn ddigon da.

* mae gostyngiad yn y ffigwr yn 15-16 gan fod darparwyr o du allan i Wynedd wedi llwyddo i ennill canran uchel o brosiectau mawr yn maes adeiladwaith ee Cwmni Wynne Construction (o Ddinbych) wedi ennill mwyafrif contractau “Ysgolion yr 21ain ganrif”. £3.4m wedi dod nol i Wynedd trwy is-gontractauar waith adeiladu Ysgol Hafod Lon yn unig.

Datblygu gwasanaethau cynaliadwy

Dros y blynydoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi gorfod gwneud arbedion ar draws ei holl wasanaethau a bydd yn gorfod gwneud mwy eto yn y dyfodol.
Mae hyn oll yn golygu newis siap rhai gwasanaethau ac mae'r Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi ystyried dau yn benodol

Y GWASANAETH CADW'N IACH
Bu'r Pwyllgor Cymunedau yn edrych ar gynaladwyedd Canolfannau Cadw'n Iach y sir. Mae cytundeb bod yn rhai ystyried model arall ar gyfer y gwasanaeth a clywodd y Pwyllgor am asesiad o opsiynau gwahanol ar gyfer y dyfodol sydd ar y gweill.

Nododd y pwyllgor bod y canolfannau yn bwysig ar gyfer iechyd a lles trigolion ond bod angen gweld gwell defnydd o adnoddau, gan gynnwys ystyried ffyrdd o leddfu colledion, denu mwy o bobl eto drwy'r drysau, efallai trwy weithgareddau ychwanegol ac edrych ar y canolfannau fel busnes yn hytrach na gwasanaeth

Y GWASANAETH LLYFRGELLOEDD
Fel rhan o Strategaeth "Mwy na Llyfrau", roedd yn rhaid i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd ad-drefnu.

Ystyriodd y Pwyllgor Cymunedau bapur yn cynnig patrwm o lyfrgelloedd dalgylch a llyfrgelloedd cymunedol yn ogystal â llyfrgell deithiol a dolenni cymunedol.

Dymuniad y Pwyllgor wrth gefnogi'r model hwn oedd y byddai yn cynnig patrwm y gellir ei gynnal i'r dyfodol.

Ymateb i arbedion

Wrth i'r Cyngor orfod gweithredu rhaglen arbedion a thoriadau, mae'r pwyllgorau craffu wedi edrych ar sut y gwneir hynny i leihau'r effaith ar drigolion.

Mae'r Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi edrych yn arbennig ar doiledau cyhoeddus, trefniadau casglu gwasatraff gwyrdd a rheoli traethau.

TOILEDAU CYHOEDDUS
Mae'r Pwyllgor Cymunedau wedi cymeradwyo cynllun i gydweithio gyda chynghorau tref a chymuned yn y sir i gadw hyd at 50 o doiledau cyhoeddus, fyddai wedi cau fel arall, ar agor.

RHEOLI TRAETHAU
Mae'r Pwyllgor Cymunedau wedu tynnu sylw at rai pryderon wrth I'r Cyngor weithredu'r toriad y mae'n gorfod ei wneud ar y Gyllideb Rheoli Traethau.

Yn benodol, mae wedi mynegi pryder am weithredu'r toriadau ar draethau Nefyn a Morfa Nefyn ac wedi gofyn am adroddiad ar ddiwedd y tymor gwyliau o'r effeithiau llawn yr arbedion.

CASGLU GWASTRAFF GWYRDD
Yn Rhagfyr 2014, ymrwymodd y Cyngor i wneud arbediad o £750,000 ar y gyllideb gwastraff trwy newid trefniadau casglu gwastraff gwyrdd.

O edrych ar yr opsiynau, penderfynodd y pwyllgor dderbyn argymhelliad i godi ffi am gasglu gwastraff gardd am 12 mis y flwyddyn, ond mynegi pryder am effaith hynny ar lefelau ail-gylchu, y gost i drigolion a'r angen i Lywodraeth Cymru gynnwys deunydd wedi ei gompostio yn eu mesuriadau

Gweithredu ar ymchwiliadau

Mae'r Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi cwblhau sawl Ymchwiliad Craffu pwysig lle mae aelodau wedi edrych ar bynciau mewn cryn fanylder a chyflwyno sawl argymhelliad i Aelodau Cabinet.

Mae'r Aelodau Cabinet wedi derbyn yr holl argymhellion ond mae'r Pwyllgor yn parhau i bwyso am eu gweld ar waith er lles trigolion.

CLUDIANT ADDYSG OL-16
Yn 2014/15, cwblhawyd Ymchwiliad Craffu i Gludiant Addysg Ol-16. Gwaetha'r modd, digwyddodd hyn ar adeg pan roedd yn rhaid gweithredu cynnydd yng nghost y tocynnau teithio oherwydd rhaglen arbedion y Cyngor.

Roedd yn bwysig felly bod y Pwyllgor yn parhau i bwyso am weithredu argymhellion llawn yr Ymchwiliad a'r pwysicaf yn eu plith oedd gwarantu hyblygrwydd i fyfyrwyr deithio yn ôl ar adegau oedd yn gyfleus i'w patrwm dysgu. Roedd y pwyllgor yn falch o ddeall bod hynny bellach yn bosib, er ei fod wedi cymryd misoedd lawer i ddigwydd

DIGARTREFEDD
Bu Ymchwiliad yn 2015/16 yn edrych ar gyfrifoldebau'r Cyngor ac yn cynnig 16 o welliannau i drefniadau'r Cyngor. Roedd angen sicrhau gweithredu

Ym Mai, 2016, mynegodd y Pwyllgor Cymunedau ei fodlonrwydd bod y mwyafrif o'u hargymhellion bellach wedi eu gweithredu neu, o leiaf, eu bod ar waith.

Ymchwiliadau'r flwyddyn

Yn ystod 2016/17, cwblhawyd dau ymchwiliad craffu gan y Pwyllgor Cymunedau, y naill i fewn i orfodaeth stryd a'r llall yn ymchwiliad sydyn i geisio cynnig gwelliannau i'r Drefn Gynllunio o fewn y Cyngor

GORFODAETH STRYD
Mae glendid stryd yn un o'r prif faterion y mae trigolion yn poeni amdano. Roedd y pwyllgor yn sylweddoli bod yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer y maes yn lleihau.

Gwnaed arolwg manwl o'r gwaith a chyflwynwyd 9 o argymhellion yn cynnwys rhoi blaenoriaeth uwch i'r gwaith, yr angen i feddwl yn greadigool wrth ymateb i doriadau, cyd-weithio'n well gydag adrannau eraill a'r gymuned a treialu ag-wedd mwy caled at orfodaeth.

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen i weld gweithredu ar hyn

Y DREFN GYNLLUNIO
Mae'r drefn gynllunio yn effeithio nifer fawr o drigolion y sir ac mae gan bawb ei farn arno.

Sefydlwyd yr Ymchwiliad Craffu Cynllunio i ddeall y drefn, herio rhai rhagfarnau amdano a llunio argymhellion i wella.

Cyflawnodd yr Ymchwiliad ei waith yn sydyn ac effeithiol a chyflwyn-wyd 6 o argymhellion, ar faterion fel monitro effaith y Cynllun Datblygu Lleol newydd, diwygio'r Cynllun Dirprwyo, dangos yr ystyriaethau economiadd yn fwy amlwg a pharhau i ystyried y t refniadau trwy lygaid y cwsmer

Disgwylir adroddiad yn ôl gan yr Aelod Cabinet yn ystod 2017/18 ar eu gweithredu

Hawliau Tramwy

Mae mynediad hwylus i lwybrau cerdded a hawliau tramwy yn bwysig iawn mewn sir fel Gwynedd sydd â rhwydwaith sydd oddeutu 3,500km o hyd.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio Cynllun Gwella Hawliau Tramwy sydd yn rheoli, datblygu a hyrwyddo eu rhwydwaith hawliau tramwy ac mae'n rhaid cyhoeddi cynllun newydd cyn Tachwedd 2017.

Pwrpas y Cynllun yw adrodd ar:-

- Y graddau y mae'r hawliau tramwy lleol yn bodloni gofynion y cyhoedd nawr ac yn y dyfodol
- Y cyfleoedd a gynigir gan hawliau
- tramwy lleol i wneud ymarfer corff a dulliau eraill o hamddena a mwynhau'r awyr agored yn ardal yr awdurdod.
- Pa mor hygyrch yw hawliau tramwy lleol i bobl ddall neu rannol ddall ac eraill a phroblemau symudedd?
- Gwerthuso cyflwr y rhwydwaith ac i ba raddau y cyflawnwyd y CGHT blaenorol
- Y cyfleoedd i gyfrannu at amcanion Teithio Llesol, Amcanion Llesiant ac at gyflawni cynlluniau a blaenoriaethau eraill.

Yn y flwyddyn diwethaf, mae'r Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi ystyried hwn ac wedi pwysleisio ceisio cyrraedd y gynulleidfa ehangach pan yn ymgysylltu ar y cynllun a cydweithio gyda'r Parc Cenedlaethol o ran anghenion adnoddau.

Pwysleiswyd hefyd bod angen ceisio mwy o adnoddau a chroesawu syniadau creadigol a'r defnydd i dechnoleg a bod hefyd angen ystyried cynyddu pwerau'r Cyngor yn y maes